



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o godio clinigol – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1181A2019-20



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Sara Utley.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei berfformiad codio'n sylweddol, ond nid yw wedi gwireddu potensial llawn codio clinigol eto ac mae angen rhagor o waith i ymgysylltu â chlinigwyr a gwella cofnodion meddygol.

## Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	5
Mae perfformiad codio clinigol y Bwrdd Iechyd wedi gwella'n sylweddol ond nid yw'n cyrraedd targed Llywodraeth Cymru eto	6
Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau defnyddio data clinigol wedi'i godio i'w lawn potensial eto er mwyn cefnogi gwelliant	8
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd o ran rhoi argymhellion blaenorol ar waith ond mae'r ôl-groniad codio wedi bod yn rhwystr i gwblhau llawer o'r camau gweithredu	9
Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith	11

## Atodiadau

Atodiad 1 – Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014	13
Atodiad 2 – Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd	23
Atodiad 3 – Ymateb rheolwyr	25

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

- 1 Mae codio clinigol yn golygu trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Bydd codydd clinigol yn dadansoddi gwybodaeth am gyfnod o ofal claf ac yn aseinio codau safonedig a gydnabyddir yn rhyngwladol<sup>1</sup>.
- 2 Mae data clinigol wedi'i godio o ansawdd da yn hanfodol i reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data wedi'i godio'n tanategu cryn dipyn o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG ac fe'i defnyddir mewn nifer o wahanol systemau ac fe'i cyflwynir mewn gwahanol fformatau. Gellir ei ddefnyddio i roi cymorth i gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, cynnal asesiadau o effeithiolrwydd triniaeth a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer nifer o archwiliadau clinigol.
- 3 Mae'n ofynnol i adrannau codio yng nghyrrff GIG Cymru gyrraedd safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawnrwydd a chywirdeb data wedi'i godio. Mae perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn rhan o adroddiadau blynyddol cyrrff y GIG ar ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth.
- 4 Yn ystod 2014-15, fe adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol y trefniadau codio clinigol yn holl gyrrff perthnasol y GIG yng Nghymru. Tynnodd y gwaith hwnnw sylw at nifer o feysydd i'w gwella megis cywirdeb codio, ansawdd cofnodion meddygol ac ymgysylltu rhwng codyddion, clinigwyr a staff cofnodion meddygol.
- 5 Canfuom hefyd fod cyrrff y GIG yn rheolaidd yn ystyried bod codio clinigol yn rôl cefn swyddfa, a'i bod yn aml yn wir mai ychydig o gydnabyddiaeth oedd i'r wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol yr oedd angen i staff fod yn meddu arnynt. Yn ogystal â hynny, nid oedd holl gyrrff y GIG yn deall pwysigrwydd codio clinigol i'w busnes o ddydd i ddydd.
- 6 Ym mis Hydref 2014, fe gyhoeddodd ni adroddiad ar ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad canlynol: 'Er bod ffocws a buddsoddiad cadarnhaol wedi bod mewn gwaith codio clinigol yn y Bwrdd Iechyd, gallai diffyg prosesau codio cyson, lefelau isel o ymgysylltu clinigol a mynediad araf at gofnodion meddygol effeithio ar gywirdeb data clinigol wedi'i godio. Yn fwy penodol canfuom fel a ganlyn:
  - roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd codio clinigol, ond gallai'r adnoddau fod yn annigonol, roedd angen cysylltiadau cryfach â chofnodion meddygol ac roedd angen i'r Bwrdd ganolbwyntio mwy ar gywirdeb data clinigol wedi'i godio yn ei adolygiadau;

<sup>1</sup> Ar gyfer diagnosisau, y Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol, 10fed rhifyn (ICD-10), ac ar gyfer triniaeth, Dosbarthiad Ymyriadau a Thriniaethau OPCS fersiwn 4 (OPCS).

- roedd effeithiolrwydd y broses godio yn cael ei effeithio gan y lefelau isel o ymgysylltu clinigol, mynediad araf at gofnodion meddygol a diffyg prosesau codio cyson; ac
  - roedd data clinigol wedi'i godio yn cael ei ddefnyddio'n briodol gyda pherfformiad cyffredinol da yn erbyn safonau Llywodraeth Cymru, ond mae yna feysydd i'w gwella mewn perthynas â chysondeb, safonau a chywirdeb.
- 7 Fe wnaethom nifer o argymhellion, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:
- codi proffil codio clinigol ac ymwybyddiaeth ohono ar draws y Bwrdd Iechyd;
  - datblygu un polisi ac un weithdrefn codio i sicrhau arferion a phrosesau cyson;
  - cryfhau ymgysylltiad clinigol â staff meddygol; a
  - gwella ansawdd cofnodion meddygol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 8 Fel rhan o gynllun archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2018, rydym wedi archwilio'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr [Adolygiad o Godio Clinigol yn 2014](#) ac unrhyw welliant mewn perfformiad o ran codio clinigol a ddeilliodd o hynny.
- 9 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi:
- adolygu dogfennaeth, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau;
  - gofyn i'r Bwrdd Iechyd hunanasesu ei gynnydd hyd yma;
  - dadansoddi data codio clinigol a anfonwyd at Lywodraeth Cymru;
  - ceisio barn aelodau'r bwrdd<sup>2</sup> ynglŷn â'u dealltwriaeth am godio clinigol; a hefyd
  - cyfweid â staff i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.
- 10 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Mae **Atodiad 1** yn darparu sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol.

## Ein canfyddiadau


- 11 Ein casgliad yw bod y **Bwrdd Iechyd wedi gwella ei berfformiad codio'n sylweddol, ond nid yw wedi gwireddu potensial llawn codio clinigol eto ac mae angen rhagor o waith i ymgysylltu â chlinigwyr a gwella cofnodion meddygol.**

<sup>2</sup> Cafodd nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chodio clinigol eu cynnwys yn yr arolwg o aelodau'r bwrdd a oedd yn rhan o'n gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2018. Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb allan o 19 o ymatebion posibl.

## Mae perfformiad codio clinigol y Bwrdd Iechyd wedi gwella'n sylweddol ond nid yw'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru eto

- 12 Mae gan Lywodraeth Cymru ddau darged Haen 1 sy'n gysylltiedig â chodio y mae'n ofynnol i gyrff y GIG eu cyrraedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflawnrwydd a chywirdeb.
- 13 Bob blwyddyn, mae gyrff y GIG yn anfon data at Lywodraeth Cymru sy'n dangos eu perfformiad yn erbyn y targed Haen 1 ar gyfer **cyflawnrwydd**. Y targed yw y dylai 95% o'r cyfnodau mewn ysbysai fod wedi'u codio o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod. Mae angen i gyrff y GIG gyrraedd y targed hwn yn fisol yn hytrach nag ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, fel yn flaenorol. Dengys **Arddangosyn 1** fod cyflawnrwydd y Bwrdd Iechyd wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf. Fodd bynnag, nid yw wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cymru eto.

### Arddangosyn 1: y ganran a godiwyd o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata codio clinigol a gyflwynwyd gan gyrff iechyd mewn adroddiadau i Lywodraeth Cymru

- 14 Fel rhan o'n gwaith maes, fe ofynnwn ni am y sefyllfa o ran yr ôl-groniad ym mis Mawrth 2018. Y sefyllfa ar ddiwedd 2017-18 oedd ôl-groniad o 23,119 o gyfnodau gorffenedig meddygon ymgynghorol (FCE) a oedd yn welliant sylweddol o'i

gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol yn 2016-17, sef 70,000 o gyfnodau gorffenedig meddygon ymgynghorol. Mae gwaith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn wedi bod yn sylweddol a rhaid llongyfarch y tîm ar eu gwaith hyd yma i leihau'r ôl-groniad. Fodd bynnag, mae hyn wedi golygu na wnaed cynnydd mewn meysydd eraill megis datblygu gweithdrefnau gweithredu codio safonol a chynnal adolygiadau rheolaidd o gywirdeb oherwydd pwysau ar gapasiti staff.

- 15 Bob blwyddyn, mae Tîm Safonau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gwirio **cywirdeb** codio clinigol. Maent yn gwneud hyn trwy adolygu sampl o gyfnodau wedi'u codio a gwirio'r wybodaeth yn erbyn tystiolaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion i asesu cywirdeb. Mae disgwyl i gyrff y GIG ddangos gwelliant blynyddol yn eu cywirdeb. Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, dengys **Arddangosyn 2** fod cywirdeb y Bwrdd Iechyd wedi gwella 5.45% yn eu hasesiad diweddaraf. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol i'r timau codio, yn enwedig yn erbyn cefndir o ôl-groniad sylweddol sydd wedi mynd ag adnoddau ac amser sylweddol er mwyn i'r tîm fynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, mae lefelau cywirdeb yn dal islaw'r gymhariaeth Cymru-gyfan.

#### Arddangosyn 2: canran y cyfnodau a godiwyd yn gywir



Ffynhonnell: Canlyniadau adolygiadau o gywirdeb codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2014-2019

\* Sylwer, oherwydd capasiti o fewn tîm codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, bod adolygiad sengl o gywirdeb wedi cael ei gynnal yn ystod y cyfnodau 2015-16 a 2016-17.

## Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau defnyddio data clinigol wedi'i godio i'w lawn botensial eto er mwyn cefnogi gwelliant

- 16 Yn flaenorol, canfuom nad oedd pob un o gyrff y GIG yn deall pwysigrwydd ehangach codio clinigol i'w busnes a'u bod yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy helaeth. Er enghraifft, i gynllunio a monitro gwasanaethau, lle gellir defnyddio codio i:
- asesu nifer y cleifion sy'n dilyn llwybrau clinigol; a
  - darparu data cymharol ynghylch gweithgarwch i arfarnu cynhyrchiant, ansawdd a pherfformiad.
- 17 Mae'r portffolio codio yn dal i fod yn gyfrifoldeb i swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol sy'n adrodd drwy'r Adran Gwybodeg. Mae'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan y Pennaeth Codio Clinigol sy'n adrodd wrth y Pennaeth Gwybodaeth sydd yn ei dro'n adrodd wrth y Cyfarwyddwr Gwybodeg Cynorthwyol. Yn flaenorol, roedd perfformiad yn erbyn y ddau brif ddangosyddion codio; cyflawnrwydd a chywirdeb, drwy'r Adroddiad Integredig ar Berfformiad Ansawdd a'r Gweithlu bob chwarter. Roedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr ôl-groniad, yn ogystal â manylu ar y tafllwybr a'r camau a gymerir i gael gwared ar yr ôl-groniad. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth yn rhoi esboniad o oblygiadau'r ôl-groniad hwn ar gyfer ansawdd y data a'r effaith i'r Bwrdd Iechyd. Roedd yr olaf o'r adroddiadau hyn ym mis Medi 2018 lle'r oedd perfformiad cyflawnrwydd yn 70.90%. Fodd bynnag, yn dilyn gwaith gan y bwrdd gweithredol i resymoli'r adroddiad perfformiad i faint sy'n haws i'w reoli, mae'r ffocws ar godio wedi cael ei golli. Sefydlwyd is-grŵp newydd i'r Bwrdd, sef y Pwyllgor Gwybodeg a Llywodraethu Gwybodaeth ac mae'n ymddangos yn synhwyrol adrodd ar y perfformiad codio yn y grŵp hwn er mwyn cynnal trosolwg ar berfformiad o ran cyflawnrwydd a chywirdeb.
- 18 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio data wedi'i godio i oleuo rhai elfennau o gynllunio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r defnydd hwn yn ad hoc ac nid yw'n manteisio i'r eithaf ar botensial llawn data wedi'i godio. Ers ein gwaith blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ehangu'r gweithgarwch sy'n cael ei godio. Yn dilyn cais gan glinigwyr yn yr uned penderfyniadau clinigol, mae'r gweithgarwch hwn bellach yn cael ei godio fel ei fod yn adlewyrchu natur eu gwaith yn gywir ac yn goleuo'r broses o gynllunio swyddi. Gwnaed rhywfaint o waith hefyd mewn meysydd arbenigol fel Wroleg er mwyn deall mynychder afiechydon penodol. Fodd bynnag, nid yw manteision data wedi'i godio i glinigwyr wedi'u gwireddu eto. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi ail-ddilysu meddygol a gallu adnabod tueddiadau mewn afiechydon neu fynychder o fewn y boblogaeth.



## Gwnaed peth cynnydd o ran rhoi argymhellion blaenorol ar waith, ond mae mynd i'r afael â'r ôl-groniad codio'n golygu bod l lawer o'r camau gweithredu'n dan heb gael eu cwblhau'n llawn

19 Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014.

### Arddangosyn 3: statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

Cyfanswm yr argymhellion	Wedi'u rhoi ar waith	Ar y gweill	Yn hwyr	Wedi'u disodli
15	3	12	0	

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 20 Mae ein gwaith dilynol wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014, er bod maint y cynnydd wedi bod yn gyfyngedig oherwydd materion o ran capasiti o fewn y tîm.
- 21 Yn dilyn ein hadolygiad blaenorol, fe ddarparodd y Bwrdd Iechyd hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd ar Godio Clinigol. Ers yr hyfforddiant hwn bu newidiadau i aelodaeth y Bwrdd. Hefyd, dywedodd pump o'r wyth ymatebydd i'n harolwg o aelodau'r Bwrdd y byddent yn ei chael yn ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth am berfformiad. Mae canlyniadau llawn yr arolwg o aelodau'r bwrdd ar gael yn **Atodiad 2**. Efallai y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ailymweld â'r hyfforddiant hwn.
- 22 Mae gan y Bwrdd Iechyd bolisi codio ac mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu gweithdrefnau gweithredol safonol i gefnogi ymarfer codio cyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Er na fu unrhyw gynnydd o ran archwiliadau codio mewnol, mae ystod o wiriadau dilysu yn eu lle. Nid yw'r rhain mor gynhwysfawr ag adolygiad llawn ond byddant yn amlygu camgymeriadau cyffredin. Mae rhai amrywiadau'n dal i fodoli mewn arferion codio, serch hynny.
- 23 Yn gadarnhaol, bu cynnydd sylweddol yn lefelau'r staff ymhlith y timau ers ein hadolygiad diwethaf. Yn ein harolwg blaenorol, fe dynnon ni sylw at y ffaith bod llenwi swyddi gwag a datblygu cynlluniau ar gyfer olyniaeth yn hanfodol i gynnal sefydlogrwydd o fewn y tîm. Mae ein gwaith dilynol wedi canfod bod cynnydd o 32% wedi bod yn niferoedd y staff ar y cyfan. Mae'r trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth wedi gwella ac ar hyn o bryd mae gan yr adran codio clinigol 18 o godyddion dan hyfforddiant, sy'n cael eu cynorthwyo i astudio ar gyfer eu cymhwyster Codydd Clinigol Achrededig. Cefnogwyd hyn gan arian ychwanegol a ddyrannwyd drwy gynllun Gwybodeg y Bwrdd Iechyd lle cydnabuwyd fod pwysau costau o fewn codio, a bod angen lleihau'r risgiau a achosir gan orddibyniaeth ar staff dros dro.
- 24 Mae ymgysylltu clinigol yn dal i fod yn faes y mae'r timau'n canolbwyntio arno. Mae ymgysylltu â chlinigwyr ar godio wedi aros yr un fath gyda dim ond llond llaw o

sgyrsiau unigol gyda meddygon ymgynghorol wedi'u nodi. Mae'r tîm codio yn teimlo bod problemau gyda chapasiti am bod eu ffocws wedi bod ar glirio'r ôl-groniad wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â chlinigwyr ac maent yn gobeithio canolbwyntio ar hyn yn y dyfodol. Mae lle i wella trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran hyfforddiant sefydlu i staff meddygol ar godio clinigol. Gellid diweddarau'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu trosolwg fwy holistig o'r trefniadau codio o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'n amlwg nad yw deunyddiau wedi'u diweddarau ers peth amser ac y byddai o fydd eu hadnewyddu. Un datblygiad cadarnhaol o fewn y Bwrdd Iechyd yw'r Swyddog Gwybodaeth Feddygol. Rôl newydd yw hon sy'n atebol i'r Prif Swyddog Gwybodaeth Feddygol. Mae gan bob ysbty Swyddog Gwybodaeth Feddygol yn ei swydd. Eu rôl yw cynorthwyo'r Prif Swyddog Gwybodaeth Feddygol i ddatblygu Strategaeth Ddigidol â gogwydd clinigol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae ganddynt hefyd ddylanwad cadarnhaol o safbwynt codio gan y byddant yn arwain ar wella ymgysylltiad clinigol â chodio clinigol, yn ogystal â rhoi cymorth i hyrwyddo gwaith y gwasanaeth codio clinigol a'r angen am gadw cofnodion da ymhlith cymheiriaid.

- 25 Ers ein hadolygiad diwethaf mae gwell ymgysylltu rhwng cofnodion iechyd a chodio. Yn flaenorol roedd perthynas weithio anffurfiol yn bodoli rhwng y ddwy adran, ac ni chafwyd unrhyw ymgysylltu ffurfiol ar y Grŵp Cofnodion Iechyd. Ers hynny mae'r Grŵp Cofnodion Iechyd wedi cael ei ailenwi'n Grŵp Cofnodion Cleifion, ac mae'r staff codio bellach yn mynychu'r grŵp hwn. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan feddyg ymgynghorol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol ardaloedd o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys y Pennaeth Cofnodion Digidol sy'n gyswllt pwysig ar gyfer codio gan y bydd yn un o ddefnyddwyr allweddol y systemau digidol a weithredir gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, er bod presenoldeb yn y grŵp hwn yn gadarnhaol, ymddengys nad yw'r grŵp yn cyfarfod yn aml, sy'n codi pryderon am ei effeithiolrwydd.
- 26 Fe wnaed gwelliannau i dracio nodiadau achosion gyda'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn system tracio ffeiliau Adnabod Amledd Radio (RFID) i dracio nodiadau achosion trwy safleoedd y prif ysbytai. Mae hyn yn helpu i gynorthwyo codyddion sy'n ceisio dod o hyd i nodiadau'n gyflym i'w codio gan eu bod yn cael eu tracio'n awtomatig trwy gyfres o sganwyr. Fodd bynnag, mae problemau o hyd gydag ansawdd nodiadau achosion. Yn adroddiad diweddaraf Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, cynghorwyd y dylid gwneud ymdrech ar unwaith i sicrhau bod yr holl staff yn y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am nodiadau achosion clinigol yn cael eu hatgoffa o'r angen am arfer da o ran eu defnyddio. Trwy ein grwpiau ffocws amlygwyd problem cyflwr gwael cofnodion gyda phwyslais ar y diffyg ffocws ar sicrhau bod y nodiadau ar gyfer cleifion a fu farw yn cael eu ffeilio'n gywir er mwyn sicrhau cofnod cyflawn. Mae hyn yn peri pryder gan y gallai hyn o bosibl effeithio ar y broses adolygu marwolaethau.

## Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

- 27 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi gwneud rhai argymhellion ychwanegol. Nodir y rhain yn [Arddangosyn 4](#). Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Caiff yr argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith eu nodi yn [Arddangosyn 5](#).

### Arddangosyn 4: argymhellion newydd

Argymhellion 2019	
<b>Ymwybyddiaeth y Bwrdd</b>	
A1	Sicrhau bod adroddiadau am berfformiad ar godio'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor gwybodeg a llywodraethu gwybodaeth newydd i sicrhau bod perfformiad yn erbyn targed Llywodraeth Cymru yn dal i gael ei fonitro.
<b>Ymgysylltu Clinigol</b>	
A2	Ailedrych ar ddeunyddiau hyfforddi a'u safoni ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau bod y deunyddiau'n adlewyrchu gwaith codio'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd yn hytrach nag ymwneud â safleoedd unigol yn unig.

- 28 Caiff yr argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith eu nodi yn [Arddangosyn 5](#).

### Arddangosyn 5: argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

Argymhellion yn 2014 sydd heb gael eu cwblhau eto	
<b>Polisi a Gweithdrefnau Codio Clinigol</b>	
A2	Cyflwyno un polisi a gweithdrefn codio clinigol ledled y bwrdd iechyd sy'n cyfuno'r holl arferion a phrosesau i sicrhau cysondeb. Dylai'r polisi a'r weithdrefn: <ul style="list-style-type: none"><li>a) sicrhau bod arferion codio'n cael eu disgrifio'n dda;</li><li>b) darparu canllawiau ac adborth i staff er mwyn galluogi arferion cyson ledled y bwrdd iechyd;</li><li>d) mynd i'r afael ag amrywiadau mewn arferion ledled y tri safle;</li><li>e) cryfhau archwiliadau codio mewnol.</li></ul>
<b>Ymgysylltu Clinigol</b>	
A3	Cryfhau'r ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod y rôl gadarnhaol sydd gan feddygon o fewn y broses godio yn cael ei chydabod: <ul style="list-style-type: none"><li>a) gwneud dull cyson yn rhan annatod o hyfforddiant codio clinigol i staff meddygol ledled y bwrdd iechyd;</li><li>b) sicrhau dull cyson o sefydlu staff meddygol ledled y bwrdd iechyd;</li><li>c) annog defnyddio gwybodaeth godio ar gyfer pethau heblaw ystadegau marwolaethau;</li></ul>

#### Argymhellion yn 2014 sydd heb gael eu cwblhau eto

- d) gwella ymgysylltu clinigol mewn perthynas â dilysu data wedi'i godio er mwyn gwella ansawdd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ffyrdd y gall y wybodaeth honno gael ei defnyddio.

#### Cofnodion Meddygol

- A4 Gwella'r trefniadau yn ymwneud â chofnodion meddygol i sicrhau y gall y gwaith codio clinigol gael ei gyflawni mewn ffordd gywir ac amserol. Dylai hyn gynnwys:
- a) gwella'r ymgysylltu rhwng yr adran codio clinigol a chofnodion meddygol;
  - c) mynd i'r afael â maint nodiadau achos trwy egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau;
  - d) sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar bwysigrwydd cofnodion meddygol o safon uchel i'r holl staff.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

### Arddangosyn 6: Aseu cynnydd

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<b>Ymwybyddiaeth y Bwrdd</b>			
A1 Gwella adroddiadau'r Bwrdd i gynnwys gwybodaeth fanwl am gywirdeb, yn ogystal â data cymharol:			
a. darparu mwy o wybodaeth am gywirdeb codio, ynghyd ag ôl-groniadau a'r effaith mae hyn yn ei chael ar ffigurau RAMI	<b>Ar y gweill</b>	Rhagfyr 2014	<p>Yn dilyn ein hadolygiad, cafodd y Bwrdd Iechyd adroddiadau ar gywirdeb codio ar lefel y Bwrdd trwy'r Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad. Roedd yr adroddiadau hyn yn amlgu problemau gydag ôl-groniad codio sylweddol a oedd yn golygu nad oedd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru, sef codio 95% o'r cyfnodau o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth yn esbonio goblygiadau'r ôl-groniad hwn ar gyfer ansawdd y data a'r effaith i'r Bwrdd Iechyd.</p> <p>Cyflwynwyd y diwethaf o'r adroddiadau hyn ym mis Medi 2018 lle'r oedd perfformiad yn 70.90%. Ni adroddwyd ar berfformiad yn erbyn y targed trwy bwyllgor ers y dyddiad hwn. Rydym yn cydnabod sefydlu'r Pwyllgor Gwybodeg a Llywodraethu Gwybodaeth yn ddiweddar ac yn argymhell bod adroddiadau am berfformiad ar godio'n cael eu cyflwyno yn y grŵp hwn.</p> <p>Fe wnaethom hefyd argymhell yn flaenorol bod y Bwrdd yn cael rhagor o fanylion am godio a'r effaith ar y Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg (RAMI). Yn 2014 cafodd RAMI ei ddileu fel dangosydd yn dilyn Adolygiad Palmer; felly nid yw'r elfen hon o'r argymhelliad yn berthnasol mwyach.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<p>b. cynnal hyfforddiant gydag aelodau'r bwrdd ar godio clinigol i godi ymwybyddiaeth o oblygiadau cywirdeb codio clinigol</p>	<b>Wedi'i gwblhau</b>	Rhagfyr 2014	<p>Yn dilyn ein hadolygiad gwreiddiol cafodd holl aelodau'r Bwrdd hyfforddiant ym mis Ionawr 2016. Fodd bynnag, ers hynny bu trosiant o ran Aelodau Annibynnol. Efallai yr hoffai'r Bwrdd lechyd ystyried ailymweld â'r hyfforddiant hwn oherwydd yr Aelodau Annibynnol newydd yn y Bwrdd lechyd.</p> <p>Mae canlyniadau ein harolwg o aelodau'r Bwrdd yn dangos bod pump o'r wyth ymatebydd yn meddwl y byddai o gymorth cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad.</p>
<p><b>Polisi a Gweithdrefnau Codio Clinigol</b></p>			
<p>A2 Cyflwyno un polisi a gweithdrefn codio clinigol ledled y bwrdd iechyd sy'n cyfuno'r holl arferion a phrosesau i sicrhau cysondeb. Dylai'r polisi a'r weithdrefn:</p>			
<p>a. sicrhau bod arferion codio'n cael eu disgrifio'n dda</p>	<b>Ar y gweill</b>	Ionawr 2015	<p>Yn ein hadolygiad diwethaf, canfuom nad oedd gan y Bwrdd lechyd un polisi codio clinigol a oedd yn cwmpasu'r holl safleoedd a gweithgareddau. Roedd polisïau hanesyddol ar waith ar gyfer Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clwyd, ond nid oedd unrhyw bolisi ar gyfer Ysbyty Gwynedd. Roedd y Bwrdd lechyd wedi cydnabod bod angen un polisi i fynd i'r afael ag anghysonderau posibl mewn ymarfer ac i ddarparu mwy o eglurder i staff ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Mae un polisi codio ar waith bellach; fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud er mwyn rhoi hwn ar waith yn llawn.</p> <p>Trwy ein cyfweiliadau, roedd ymwybyddiaeth o'r polisi hwn yn isel ymhlith staff codio. Hefyd, ceir rhai elfennau y mae angen eu newid i adlewyrchu newidiadau yn nhargedau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r rheolwr codio'n datblygu gweithdrefnau gweithredol safonol i gefnogi'r weithdrefn codio clinigol. Mae hyn yn gam cadarnhaol a bydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i ategu'r polisi codio a dylai fynd i'r afael ag anghysonderau yn ogystal â nodi'n glir y gwiriadau dilysu rheolaidd a gyflwynwyd.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<p>b. darparu canllawiau ac adborth i staff er mwyn galluogi arferion cyson ledled y Bwrdd Iechyd</p>	<p><b>Ar y gweill</b></p>	<p>Ionawr 2015</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r broses Cynllun Datblygiad Personol ac ar adeg ein hadolygiad ni roedd cyfradd cydymffurfio'r adran codio'n agos at 100% gyda dim ond un aelod o staff yn disgwyl am ei adolygiad.</p> <p>Mae trefniadau ar waith ar gyfer gwiriadau dilysu rheolaidd ac os caiff materion eu hadnabod caiff y rhain eu bwydo'n ôl i'r unigolion. Fodd bynnag, fe allai fod mwy o gysondeb pe bai materion yn cael eu bwydo'n ôl i'r tîm cyfan ar draws safleoedd.</p>
<p>c. sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i lenwi swyddi gwag presennol a sicrhau cynlluniau effeithiol ar gyfer olyniaeth</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>	<p>Ionawr 2015</p>	<p>Nid yw'r polisi'n manylu ar swyddi gwag a chynlluniau ar gyfer olyniaeth; fodd bynnag, mae gan y tîm gynllun gweithlu ar gyfer yr adran. Yn gadarnhaol bu newid sylweddol mewn niferoedd staffio ers i ni gynnal yr adolygiad diwethaf. Ar y cyfan mae lefelau staffio wedi cynyddu 32% ac mae'r rheolwr codio o'r farn eu bod wedi'u staffio'n llawn.</p> <p>Cefnogwyd hyn gan arian ychwanegol a ddyrannwyd drwy gynllun Gwybodeg y Bwrdd Iechyd lle cydnabuwyd fod pwysau costau o fewn codio, a bod angen lleihau'r risgiau a achosir gan orddibyniaeth ar staff dros dro.</p> <p>Mae trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth wedi cael eu gwella ers 2014 hefyd. Yn ystod ein hadolygiad diwethaf roedd traean o'r staff yn yr adran yn 56 oed a throsodd ac yn debygol o ymddeol yn y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd mae gan yr adran codio clinigol 18 o godyddion dan hyfforddiant, sy'n cael cymorth i astudio tuag at eu cymhwyster codio clinigol cenedlaethol Codydd Clinigol Achrededig. Bydd y cynnydd hwn mewn staff wedi rhoi sefydlogrwydd i'r adran.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<p>d. mynd i'r afael ag amrywiadau mewn arferion ledled y tri safle</p>	<p><b>Ar y gweill</b></p>	<p>Ionawr 2015</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau mewn arferion ar draws safleoedd, ac mae'r tîm rheoli codio'n cwrdd i drafod unrhyw faterion a amlygir trwy wiriadau dilysu rheolaidd. Fodd bynnag oherwydd pwysau gwaith nid yw cyfarfodydd timau lleol yn digwydd bob amser, ac mae cyfleoedd i'r tîm codio ddod ynghyd fel grŵp cyfan yn anodd i'w trefnu.</p> <p>Ar hyn o bryd mae gweithdrefnau gweithredol safonol yn cael eu datblygu gan y rheolwr codio, a dylai'r rhain helpu i gael gwared ar unrhyw amrywiadau mewn arferion codio trwy ddarparu cyfarwyddiadau mwy manwl.</p> <p>Yn ein hadolygiad diwethaf canfuom amrywiadau mewn polisïau rhwng safleoedd y tri YCD mewn perthynas â chodio iechyd meddwl a darpariaeth gymunedol. Yn Ysbyty Gwynedd, roedd codyddion yn y tîm yn codio gweithgarwch sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a darpariaeth gymunedol. Yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar y llaw arall, nid oedd y staff codio yn codio iechyd meddwl, er eu bod yn codio darpariaeth gymunedol. Yn Ysbyty Glan Clwyd, nid oedd y staff yn codio iechyd meddwl na darpariaeth gymunedol. Yn gadarnhaol mae'r holl weithgarwch iechyd meddwl ar draws y Bwrdd Iechyd bellach yn cael ei godio gan yr adrannau codio, yn dilyn newidiadau ym mis Ebrill 2015. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau o hyd yn y dull mewn perthynas â chodio gweithgarwch cymunedol fel a ganfuwyd yn flaenorol.</p> <p>Mae systemau gwahanol i'w cael o hyd yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Cyflawnir gwaith codio gan ddefnyddio System Gweinyddu Cleifion (PAS) Cymru ac Amgodwr Clinigol 3M yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clwyd, ond defnyddir y System Rheoli Gwybodaeth Cleifion (PIMS) yn Ysbyty Gwynedd o hyd.</p>



Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
e. cryfhau archwiliadau codio mewnol	<b>Ar y gweill</b>	Ionawr 2015	<p>Yn ein hadolygiad diwethaf fe dynnon ni sylw at y ffaith bod sicrhau bod rheolau codio yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ledled y bwrdd iechyd yn dipyn o her, a bod y Pennaeth Codio yn cydnabod hynny. Fe argymhellon ni fod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei archwiliadau codio mewnol ei hun.</p> <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd ddau archwilydd codio clinigol achrededig; fodd bynnag, mae eu cymhwyster wedi mynd i golli erbyn hyn. Nid oes cynlluniau i adnewyddu eu cymwysterau er eu bod yn ymwybodol o'r fethodoleg archwilio.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi dibyniaeth ar yr archwiliad allanol a gyflawnir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar bob un o'r tri safle bob yn ail flwyddyn fel rhan o'r Rhaglen Archwilio Genedlaethol. Maent yn nodi y gellir comisiynu archwiliadau allanol ychwanegol ar ben hynny os oes angen. Mae canlyniadau archwiliadau cywirdeb Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gadarnhaol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos gwelliannau.</p> <p>Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio aelod o staff sy'n gallu gwneud gwaith archwilio; fodd bynnag ni chafodd ei gyflogi at y diben hwn, felly mae'n aneglur a fydd yn cyflawni'r rôl hon yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y sefyllfa hon ond yn nodi bod yr archwiliadau codio'n mynd â llawer o amser. Mae ystod o wiriadau dilysu wedi cael eu sefydlu sy'n chwilio'n awtomatig am wallau codio cyffredin. Mae'r rhain yn gadarnhaol ond ni fyddent yn rhoi'r wybodaeth fanwl y byddai adolygiad ffurfiol gan edrych ar nodiadau achosion yn ei rhoi.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<b>Ymgysylltu Clinigol</b>			
A3 Cryfhau'r ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod y rôl gadarnhaol sydd gan feddygon o fewn y broses godio yn cael ei chydabod:			
a. gwneud dull cyson yn rhan annatod o hyfforddiant codio clinigol i staff meddygol ledled y bwrdd iechyd	<b>Ar y gweill</b>	Awst 2014	<p>Ceir cydnabyddiaeth ymhlith staff codio na fydd y gwaith hwn byth yn cael ei gwblhau, a bod ymgysylltu clinigol yn dal i fod yn her barhaus. Yn ystod ein hadolygiad diwethaf canfuom fod codio clinigol yn rhan gadarnhaol o'r broses o sefydlu meddygon iau. Mae'r trefniadau hyn wedi parhau, ac mae codyddion yn dal i fynychu'r sesiynau sefydlu ar gyfer meddygon iau, a gynhaliwyd ddiwethaf ym mis Medi 2018.</p> <p>Mae'r capasiti o fewn y tîm wedi effeithio ar waith pellach yn y maes hwn, er bod y tîm yn cydnabod yr hoffent wneud mwy.</p>
b. sicrhau dull cyson o sefydlu staff meddygol ledled y bwrdd iechyd	<b>Ar y gweill</b>	Ionawr 2015	<p>Fe nodon ni yn ein hadroddiad blaenorol fod dulliau gwahanol o sefydlu staff meddygol ar safleoedd gwahanol. Mae hyn wedi parhau. Ceir tystiolaeth o gynnal digwyddiadau ymgysylltu clinigol, megis cwrdd â meddygon iau yn Ysbyty Maelor Wrecsam a darparu gwybodaeth am bwysigrwydd codio ac ansawdd data.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r dulliau'n dal i fod yn anghyson ar draws y Bwrdd Iechyd, a byddai o gymorth pe bai'r cyflwyniad a rannwyd gyda ni ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael ei ddiweddarau gan ei bod yn ymddangos nad yw wedi cael ei adolygu am beth amser. Nid yw'r sleidiau hyfforddi'n rhoi trosolwg o swyddogaeth godio'r Bwrdd Iechyd, a fyddai o gymorth.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<p>c. annog defnyddio gwybodaeth godio ar gyfer pethau heblaw ystadegau marwolaethau</p>	<p><b>Ar y gweill</b></p>	<p>Ionawr 2015</p>	<p>Yn ein hadolygiad diwethaf fe amlygon ni'r potensial i'r data a gynhyrchir trwy godio gael ei ddefnyddio at ddibenion eraill megis trawsnewid a chynllunio gwasanaethau.</p> <p>Bu rhai enghreifftiau o hyn; fodd bynnag mae'r defnydd ohono'n dal i fod yn ad hoc. Ers ein gwaith blaenorol, mae'r Bwrdd lechyd wedi ehangu'r gweithgarwch a gaiff ei godio. Yn dilyn cais gan glinigwyr yn yr uned penderfyniadau clinigol, mae'r gweithgarwch hwn bellach yn cael ei godio fel ei fod yn adlewyrchu natur eu gwaith yn gywir ac yn goleuo'r broses cynllunio swyddi. Fe wnaed peth gwaith mewn meysydd arbenigol megis Wroleg hefyd i ddeall mynychder afiechydon penodol.</p> <p>Un agwedd gadarnhaol a allai wella hyn yw rolau'r Swyddogion Gwybodaeth Meddygol newydd a benodwyd ar draws y sefydliad. Mae'r rôl hon yn cefnogi gwaith y Prif Swyddog Gwybodaeth, ac mae ymgysylltu â chodio'n rhan o'u rôl gyda chyfrifoldeb am wella ymgysylltu clinigol ar gyfer codio clinigol.</p>
<p>d. gwella ymgysylltu clinigol mewn perthynas â dilysu data wedi'i godio er mwyn gwella ansawdd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ffyrdd y gall y wybodaeth honno gael ei defnyddio</p>	<p><b>Ar y gweill</b></p>	<p>Ionawr 2015</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yr angen i wella ymgysylltu clinigol ac mae'r Rheolwr Codio'n hyderus y gall hyn wella gan eu bod bellach wedi mynd i'r afael â'r ôl-groniad codio.</p> <p>Mae'r adran codio clinigol yn Ysbyty Maelor Wrecsam wedi rhedeg deg digwyddiad ymgysylltu clinigol dros y 12 mis diwethaf. Ers ein hadolygiad diwethaf mae'r staff yn Ysbyty Gwynedd wedi symud i le mwy i leoli'r holl staff a'r staff ychwanegol mewn un lleoliad. Mae hyn yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae tîm Ysbyty Glan Clwyd yn teimlo bod adleoli staff i le y tu allan i brif adeilad yr ysbyty wedi effeithio ar allu'r staff codio i ymgysylltu â staff clinigol.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
			Ystyrir hefyd bod rôl y Swyddog Gwybodaeth Feddygol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer yr argymhelliad hwn. O'u disgrifiad rôl mae ymrwymiad clir iddynt ganolbwyntio ar wella ymgysylltu clinigol â chodio clinigol a hyrwyddo'r gwasanaethau codio clinigol.
<b>Cofnodion Meddygol</b>			
A4 Gwella'r trefniadau yn ymwneud â chofnodion meddygol i sicrhau y gall y gwaith codio clinigol gael ei gyflawni mewn ffordd gywir ac amserol. Dylai hyn gynnwys:			
a. gwella'r ymgysylltu rhwng yr adran codio clinigol a chofnodion meddygol	<b>Ar y gweill</b>	Medi 2014	<p>Fe amlygodd ein hadolygiad diwethaf nad oedd unrhyw ymgysylltu ffurfiol o ran codio ar y Grŵp Cofnodion Iechyd. Mae hyn bellach wedi cael sylw. Mae enw'r grŵp wedi newid i'r Grŵp Cofnodion Cleifion a cheir presenoldeb rheolaidd gan y Pennaeth Codio neu ei ddirprwy.</p> <p>Mae adolygiad o gofnodion y grŵp hwn yn dangos presenoldeb da a thrafodaeth am faterion a oedd yn ymwneud â nodiadau achosion. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r cyfarfodydd hyn yn digwydd yn aml.</p> <p>Mae adolygiad o gofnodion y grŵp hwn yn dangos presenoldeb da a thrafodaeth am faterion a oedd yn ymwneud â nodiadau achosion. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r cyfarfodydd hyn yn digwydd yn aml.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<p>b. sicrhau bod staff codio yn gallu cael mynediad at gofnodion yn gyflymach</p>	<p><b>Wedi'i gwblhau</b></p>	<p>Medi 2015</p>	<p>Fe wnaed gwaith i helpu i sicrhau mynediad cyflymach at gofnodion meddygol. Ni soniodd staff y siaradon ni gyda hwy fel rhan o'r grŵp ffocws am unrhyw faterion o ran mynediad at gofnodion. Mae'r Rheolwr Codio'n hyderus y byddai unrhyw faterion gyda mynediad yn cael eu codi yn y Grŵp Cofnodion Iechyd; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod cyfarfodydd y grŵp hwn yn digwydd yn anaml.</p> <p>Fe wnaed gwelliannau i dracio nodiadau achosion gyda'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn system tracio ffeiliau Adnabod Amledd Radio (RFID) i dracio nodiadau achosion trwy safleoedd y prif ysbytai. Mae hyn yn helpu i gynorthwyo codyddion sy'n ceisio dod o hyd i nodiadau'n gyflym i'w codio gan eu bod yn cael eu tracio'n awtomatig trwy gyfres o sganwyr.</p>

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
<p>c. mynd i'r afael â maint nodiadau achos trwy egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau</p>	<p><b>Ar y gweill</b></p>	<p>Prosiect Hirdymor</p>	<p>Mae materion yn dal i fodoli gyda chofnodion meddygol. Mae gan y tîm cofnodion meddygol gyfrifoldeb am sefydlu'r cofnod a sicrhau ei fod yn cael ei storio'n briodol. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am ffeilio gwybodaeth ac ansawdd gwybodaeth a gofnodir yn gorwedd gydag aelodau eraill o staff. Roedd un maes yn ein hadolygiad diwethaf yn ymwneud â slipiau canlyniadau ac mae hwn yn bwnc ar y Grŵp Cofnodion Iechyd y maent yn ceisio ymdrin ag ef.</p> <p>Mae'r adran Cofnodion Iechyd yn dal i fod yn gyfrifol am y polisi a elwir yn 'weithdrefn Rheoli Cofnodion Iechyd'. Mae'r weithdrefn yn nodi'r diffiniad o gofnod iechyd yn ogystal â chyfrifoldebau. Ceir safonau cadw cofnodion ac egwyddorion da ar gyfer cadw cofnodion hefyd, sy'n debyg i safonau Coleg Brenhinol y Ffisegwyr o ran eu natur, er nad yr rhain ydynt. Nid oes tystiolaeth o unrhyw waith ychwanegol ar nodiadau achosion i fynd i'r afael â'u maint</p> <p>Cododd staff yn y grwpiau ffocws yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clwyd bryderon ynghylch ansawdd gwael nodiadau achosion. Yn ogystal â hynny, nid yw cofnodion cleifion ymadawedig yn cael eu ffeilio'n gywir ac nid oedd digon o ymdrech i sicrhau bod y ffeiliau'n gofnod cywir.</p>
<p>d. sicrhau bod hyfforddiant ar gael ar bwysigrwydd cofnodion meddygol o safon uchel i'r holl staff</p>	<p><b>Ar y gweill</b></p>	<p>Prosiect Hirdymor</p>	<p>Ceir polisi mewn perthynas â chofnodion iechyd, ac mae staff yn cael hyfforddiant sefydlu ar hyn. Mae prosesau yn eu lle i'r Bwrdd Iechyd fynd ati'n rheolaidd i archwilio systemau rheoli cofnodion, ac fel lleiafswm rhaid bod archwiliad blynyddol o gadw cofnodion. Trwy adolygiadau o farwolaethau, caiff materion gyda chadw cofnodion eu hadnabod hefyd a'u bwydo'n ôl i staff</p> <p>Mae trefniadau yn eu lle trwy rôl newydd y Swyddogion Gwybodaeth Feddygol i gefnogi gwelliannau mewn cofnodion meddygol. Rhan o'r disgrifiad rôl yw gweithio gyda'r tîm cofnodion iechyd a hybu'r angen am gadw cofnodion da.</p>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

## Atodiad 2

### Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd

Cafwyd ymatebion oddi wrth wyth aelod o'r bwrdd yn y Bwrdd Iechyd.  
Ceir dadansoddiad o'r ymatebion isod.

#### Arddangosyn 7: cyfradd bodlonrwydd ar agweddau ar godio

	Pa mor fodlon ydych chi ar yr wybodaeth yr ydych yn ei chael am gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?		Pa mor fodlon ydych chi bod eich sefydliad yn gwneud digon i sicrhau bod trefniadau codio clinigol yn gadarn?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Cwbl fodlon	-	6	2	5
Bodlon	4	34	3	40
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	2	46	2	46
Anfodlon	2	10	1	4
Cwbl anfodlon	-	-	-	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>96</b>	<b>8</b>	<b>96</b>

#### Arddangosyn 8: cyfradd ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gadernid codio clinigol

	Pa mor ymwybodol ydych chi o'r ffactorau a all effeithio ar gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ymwybyddiaeth lawn	4	26
Peth ymwybyddiaeth	3	50
Ymwybyddiaeth gyfyngedig	1	17
Dim ymwybyddiaeth	-	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>96</b>

Arddangosyn 9: lefel pryder a defnyddiadwyedd hyfforddiant

	Ydych chi'n pryderu bod eich sefydliad yn rhy barod i briodoli tanberfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol i broblemau gyda chodio clinigol?		Ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ydw	2	8	5	77
Nac ydw	6	84	3	19
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>92</b>	<b>8</b>	<b>96</b>

Arddangosyn 10: Sylwadau ychwanegol a ddarparwyd gan ymatebwyr o'r Bwrdd Iechyd

- Mae gennyf ddealltwriaeth am bwysigrwydd codio ond nid oes gennyf wybodaeth wirioneddol am y broses ac rwy'n credu y byddai rhagor o wybodaeth yn gwella fy ngallu i gael sicrwydd.
- Bu problemau hanesyddol gyda chodio, ond ymddengys eu bod yn cael sylw, yn rhannol trwy roi mwy o egni i dargedu problemau codio.



# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr

Arddangosyn 11: ymateb rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/ budd a fwriedir	Blaenoria eth uchel (ie/na)	Wedi'i dderbyn (do/naddo)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1	<b>Ymwybyddiaeth y Bwrdd</b> Sicrhau bod adroddiadau am berfformiad ar godio'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor gwybodeg a llywodraethu gwybodaeth newydd i sicrhau bod perfformiad yn erbyn targed Llywodraeth Cymru yn dal i gael ei fonitro.	Sicrhau bod gan berfformiad codio broffil yn y Bwrdd lechyd a bod perfformiad yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru yn cael ei fonitro.	le	Do	Ym mis Mai 2019 bydd eitemau'r Pwyllgor Gwybodeg a Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys Adroddiad Sicrwydd Chwarterol ar Wybodeg – mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r archwiliad hwn a'r camau gweithredu mewn ymateb iddo ynghyd â pherfformiad codio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru. Bydd cyflawnrwydd codio'n cael ei gofnodi'n chwarterol trwy'r mecanwaith.	Chwarter 1 yn 2019/20	Pennaeth Codio Clinigol

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/ budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Wedi'i dderbyn (do/naddo)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A2	<b>Ymgysylltiad clinigol</b> Ailystyried deunyddiau hyfforddi a safoni ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau bod y deunyddiau'n adlewyrchu cyfanswm y byrddau Iechyd sy'n cael eu codio nid yn unig ar sail safleoedd.	Sicrhau cysondeb o ran hyfforddiant ar draws y Bwrdd Iechyd a hefyd codi ymwybyddiaeth o fanteision a chyfleoedd codio data i glinigwyr.	Ie	Do	Ar hyn o bryd, mae deunyddiau hyfforddi ar gyfer codio clinigol yn cael eu diweddarau i helpu gyda'r gwaith ymgysylltu a gwybodaeth. Ar ôl eu cwblhau bydd y rhain yn cael eu rhyddhau fel rhan o strategaeth ymgysylltu ehangach.	Chwarter 1 yn 2019/20	Pennaeth Codio Clinigol



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)